

Llais y Llywodraethwyr

Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni/ Annual Report to Parents

Medi/September 2025- Gorffennaf/July 2026



Adroddiad y Cadeirydd i rieni ar ran y Corff Llywodraethol – blwyddyn ysgol 2025/26

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Mae'n anodd credu bod blwyddyn ysgol arall ar fin dod i ben. Mae'r plant wedi gwneud cynnydd sicr mewn nifer o feysydd pwysig eleni ac wedi elwa trwy gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau, gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd, cyngherddau Nadolig cofiadwy ac adnewyddu gwobr Platinwm Eco yng Nghwrt Henri.

Blwyddyn lwyddiannus iawn i'r Ffederasiwn felly, gyda chyfle i gadarnhau'r safonau a'r disgwyliadau uchel yn dilyn ymweliad interim Estyn. Cefais y ffrind o fynd ar deithiau dysgu yn y dair ysgol a phrofi'r arlwy pwrpasol a diddorol i'r disgyblion, gan ymhyfrydu yn ymrwymiad y plant at eu gweithgareddau dysgu. Roedd yn bleser bod yn dyst i'r naws a'r ethos gartrefol a chyfeillgar yn y dair ysgol.

Braf hefyd yw datgan bod yr ysgolion yn cyfrannu tuag at, ac yn elwa oddi wrth, ein cymunedau lleol mewn amrwyiaeth o wahanol ffyrdd, gan gynnwys ein cysylltiadau gyda'r cylchoedd meithrin lleol.

Mae sicrhau Ffederasiwn lwyddiannus yn waith tîm, a dyledus mynegi diolch diffuant iawn i Mrs. Sian Davies, ein Pennaeth, am ei harweinyddiaeth doeth a chadarn. Cefais y ffrind o gydweithio'n agos â hi dros y flwyddyn. Dymunaf pob llwyddiant iddi tra'n ymgymryd â'i secondiad dros y flwyddyn ysgol nesaf.

Dyledus hefyd nodi cyfraniad allweddol ein Penaethiaid Cynorthwyol (Mrs. Alison Morgan, Miss Alana Walker a Mrs. Lisa Williams): wrth arddel eu cyfrifoldebau ar draws y Ffederasiwn; wrth sicrhau safleoedd diogel sy'n blaenoriaethu lles y disgyblion ac am eu rôl ar lawr y dosbarth. Yn yr un modd mae'n athrawon dosbarth a'n staff cefnogi wedi gweithio'n ddiwyd iawn ac yn haeddu ein diolch gwirioneddol am bopeth a wneir ganddynt yn uniongyrchol gyda'r disgyblion o ddydd i ddydd.

Mae fy rôl fel Cadeirydd wedi canolbwyntio'n benodol eleni ar gefnogi tu cefn i'r llenni, yn bennaf drwy ryngweithio'n agos gyda Mrs Davies, yr Adran Addysg a'r Corff Llywodraethol. Mae fy niolchiadau'n ddiwyll i aelodau'r corff. Cawsom drafodaethau manwl, ystyrlon – a dwys ar brydiau - ond wastad yn broffesiynol, gyda budd y Ffederasiwn, ein disgyblion a'n staff yn flaenllaw ar bob achlysur.

Dwi'n gwerthfawrogi hefyd faint o gefn yr ydych chi fel rhieni a theuluoedd – yn barod i godi pwyntiau gyda'r ysgolion pan fo angen, ac yn raslon wrth gydweithio gyda ni fel cymuned o ymarferwyr a gwirfoddolwyr. Rhaid hefyd cydnabod cyfraniad gwerthfawr y Cymdeithasau Rhieni-Athrawon. Mae eich brwdfrydedd a'ch mewnbwn wedi cyfoethogi gwaith a chenadwri'r Ffederasiwn eleni eto.

Braf oedd croesawu Miss K. Jenkins (Talyllychau) a Miss E. Jones (Ffairfach) fel cynorthwywyr dysgu ym mis Medi Dymunir ymddeoliad hapus i Mrs S. Moses (Ffairfach) a fu'n aelod gwerthfawr o'r tîm am nifer o flynyddoedd fel gofalydd. Estynnwyd pob lwc i Miss S. James (Talyllychau) a adawodd adeg y Nadolig.

Hoffwn hefyd ddymuno pob llwyddiant i Mrs Lisa Williams wrth iddi gychwyn ei rôl fel Pennaeth Interim y Ffederasiwn ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27. Mae'r Corff Llywodraethol yn hyderus y caiff gefnogaeth selog gan bawb sydd ynghlwm a'n tair chwaer ysgol.

I gloi, edrychwn ymlaen at flwyddyn ffynniannus arall i'n disgyblion, staff a'n teuluoedd.

Cofion diffuant,

Aeron Rees

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Chair's report to parents on behalf of the Governing Body – school year 2025/26

Dear Parents/Carers,

It's hard to believe that another school year is about to end. The children have made sure progress in several important areas this year and have benefited by engaging in a wide range of activities and events, including the Urdd Eisteddfod, memorable Christmas concerts and the renewal of the Eco Platinum award at Cwrt Henri.

A very successful year for the Federation therefore, with an opportunity to confirm the high standards and expectations following Estyn's interim visit. I had the privilege of going on learning walks in the three schools, to witness the purposeful and interesting offer to the pupils, whilst delighting in the children's commitment to their learning activities. It was a pleasure to experience the homely and friendly atmosphere and ethos at all three schools.

It is also pleasing to state that the schools contribute towards, and benefit from, our local communities in a variety of ways, including our links with the local cylchoedd meithrin.

Ensuring a successful Federation is a team effort and I should express sincere thanks to Mrs. Sian Davies, our Headteacher, for her wise and sound leadership. I had the privilege of working closely with her this year, wishing her every success as she undertakes her secondment during the next school year.

Also worthy of note is the key contribution of our Assistant Headteachers (Mrs Alison Morgan, Miss Alana Walker and Mrs Lisa Williams): in carrying out their responsibilities across the Federation; in ensuring safe premises that prioritise the wellbeing of pupils and for their role in the classroom. Similarly, our classroom teachers and support staff have worked very hard and deserve our sincere thanks for everything they do directly with the pupils on a day-to-day basis.

My role as Chair has focused specifically this year on supporting behind the scenes, primarily by liaising closely with Mrs Davies, the Education Department and the Governing Body. My thanks go out to the Governors. We had in-depth, meaningful and - at times - intense discussions, but these were always professional, with the benefit of the Federation, our pupils and staff always at the forefront.

I also appreciate how much support you provide as parents and families – willing to pick up points with the schools when required, though gracious in working with us as a community of practitioners and volunteers. The valuable contribution of the Parent-Teacher Associations must also be recognized. Your enthusiasm and input have enriched the work and mission of the Federation again this year.

It was nice to welcome Miss K. Jenkins and Miss E. Jones as classroom assistants in September. A happy retirement is extended to Mrs S. Moses, a valuable member of the team for many years as a caretaker. Best of luck was extended to Miss S. James (Talylychau) who left at Christmas.

I wish Mrs Lisa Williams every success as she commences her role as Acting Head of the Federation for the 2026/27 academic year. The Governing Body is confident that she will enjoy the support of everyone involved with our three constituent schools.

In conclusion, we look forward to another prosperous year for our pupils, staff and families.

Sincere regards,

Aeron Rees

Chair of Governors

Gwybodaeth am Gyfarfodydd Blynyddol Rhieni lywodraethwyr

Cafodd y gofyniad o gynnal cyfarfodydd blynyddol i rieni ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw. Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.

Bydd angen i rieni o leiaf 10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'lofnodi'r' ddeiseb electronig.

Ar hyn o bryd mae [Cwrt Henri – 37, Ffairfach – 65, Talylychau - 58] o blant wedi'u cofrestru gyda'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Gallwch gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael gwybod yn union faint sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.

Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu. Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol.

Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod.

Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS). Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol:

**Mrs Yvonne Jones, Clerc y Llywodraethwyr, Ysgol Ffairfach, Heol Bethlehem, Ffairfach.
Llandeilo. SA19 6SY.**

Gellir gweld mwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru ynghylch sut gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutory-guidance/?lang=cy>

Annual Parent Governor Meetings

The Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (The Act) has removed the requirement for school governing bodies to hold an annual meeting with parents. Instead, new arrangements were introduced to enable parents to request up to 3 meetings in any school year with a governing body, on matters which are of concern to them.

If parents wish to use their rights under the Act to hold a meeting, 4 conditions will need to be satisfied:

1. Parents will need to raise a petition in support of holding a meeting.

The parents of at least 10% of the school's registered pupils. If it is a paper petition, then a written signature must be given as well as the name and class of each child who is a registered pupil at the school. If the petition is in electronic format, the 'signature' required is the typed name of the parent plus the name and class of each child who is a registered pupil at the school and the email address of each parent who 'signs' the electronic petition.

At present there are (37 -Cwrt Henri, 65 – Ffairfach, 58- Talley) children registered as pupils with this school at the beginning of this academic year. Exact roll numbers at any time during the year may be obtained from the school office.

2. The meeting must be called to discuss matters which affect the school

The meeting cannot be called to discuss such matters as the progress of individual pupils, or to make a complaint against a member of the school's staff or governing body.

The petition should contain brief details of the matter(s) to be discussed, and the reasons for calling the meeting. This information should be clearly displayed at the top of the petition, with parents' signatures appearing below.

3. A maximum of 3 meetings can be held during the school year.

The law allows parents to use their rights to request up to 3 meetings with a school governing body during the school year.

4. There must be at least 25 school days left in the school year

The law makes it a condition that at least 25 school days are left in the school year when the petition is received so that the meeting can be held.

A "school day" means a day when the school is open to pupils: it does not include weekends, public holidays, school holidays or INSET days.

The address for service of a petition requesting a meeting with this school's governing body is:

Mrs Yvonne Jones, Clerc of the Governors, Ysgol Ffairfach, Bethlehem road, Ffairfach, Llandeilo. SA19 6SY.

Further advice on how parents may go about requesting a meeting with a governing body is available on the Welsh Government's website at:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutory-guidance/?lang=en>

Pwy yw Pwy? / Who's who? Staff 2025-26

Enw / Name	Rôl / Role
Mrs. S Davies	Pennaeth Strategol y Ffederasiwn Federation Strategic Head teacher
Mrs. C Davies	CADY Y Ffederasiwn / Federation ALNCO
Mrs. Y Jones	Swyddog Cefnogi ysgol /School support staff
YSGOL CWRT HENRI SCHOOL	
Mr D Davies (Cothi)	Athro Blwyddyn 4,5 a 6 Year 4,5 & 6 Teacher
Mrs L Williams (Tywi)	Pennaeth cynorthwyol / Assistant Headteacher Athrawes Meithrin – Blwyddyn 3 / Nursery – Year 3 teacher
Mrs N Davies Mrs C Thomas	Cynorthwyr Support staff
Mr G Williams	Gofalydd a Glanhawr / Caretaker and Cleaner
Miss J Rees	Cogyddes /Cook
YSGOL TALYLLYCHAU SCHOOL	
Miss A Walker (Wiwerod)	Pennaeth Cynorthwyol / Assistant Head teacher Athrawes Meithrin – Blwyddyn 2/ Nursery – Year 2 Teacher
Mr N Gale(Tylluanod)	Athro Blwyddyn 3,4,5 a 6 /Year 3,4,5 & 6 teacher
Mrs D Roberts Mrs L Davies Miss K Jenkins	Cynorthwyr Support Staff
Mrs S Lewis	Cogyddes /Cook
Mrs S Aston Ms L Marshall	Amser cinio / lunchtime supervisor
YSGOL FFAIRFACH SCHOOL	
Mrs A Morgan (Dewi)	Pennaeth Cynorthwyol / Assistant Head teacher Athrawes M/D a Bl1/Teacher N,R & Y1
Mrs A O'Hara (Myrddin)	Athrawes Blwyddyn 2 a 3 Year 2 & 3 Teacher
Miss F Jones (Twm Sion Cati)	Athrawes Bl 4,5 a 6 - Teacher Year 4,5 & 6
Mrs L Lewis Mrs E Morse Miss E Rees Miss E Jones	Cynorthwyr Support staff
Mrs D Beynon	Gofalydd Caretaker
Mrs D Beynon	Cogyddes / Cook Staff y Gegin / Kitchen Staff

Llywodraethwyr 2025-26

Enw / Name	Rôl / Role	Cychwyn Start	Diwedd cyfnod/End of term
Mrs S Davies	Pennaeth / Head teacher	-	-
Miss A Walker	Cynrychiolydd athrawon / Teacher representative	1.4.25	31.3.27
Mrs L Williams	Cynrychiolydd athrawon / Teacher representative	14.10.25	13.10.27
Mrs N Davies	Cynrychiolydd staff/ staff representative	15.4.26	14.4.26
Mrs D Beynon	Cynrychiolydd staff/ staff representative	1.4.25	31.3.27
Mr M Charles	Cynrychiolydd AALI / LEA Representative	1.4.25	31.3.29
Mrs S Thomas	Cynrychiolydd Cymunedol / Community Rep	20.1.25	19.1.29
Mr A Rees	Cadeirydd / Chairperson Cynrychiolydd AALI / LEA Representative	8.11.24	7.11.28
Mrs F Walters	Cynrychiolydd AALI / LEA Representative	1.4.23	31.3.27
Mrs A Hughes Mrs C Thomas	Cynrychiolydd AALI / LEA Representative	25.3.26	24.3.30
Mrs H Rice Mrs A Hughes	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	1.4.21 19.1.26	31.12.25 18.1.30
Mr A Springthorpe	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep Is Gadeirydd / Vice Chairperson	25.9.23	24.9.27
Mrs C Rees	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	1.4.25	31.3.29
Mrs N Evans	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	25.9.23	24.9.27
Mrs K Williams	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	1.4.25	31.3.29
Mrs Marian John	Cynrychiolydd Rhieni / Parental Rep	2.4.25	1.4.29
Mrs J Cornock -Thomas	Cynrychiolydd Cymunedol / Community Rep	20.7.23	19.7.27
Mrs C Duncan	Cynrychiolydd Cymunedol / Community Rep	1.11.25	31.3.29
Mrs A Owen	Cynrychiolydd Cymunedol / Community Rep	11.3.22 LLE GWAG	13.3.26 EMPTY SEAT
Cllr Alice Freeman	Cynrych. Cymunedol ychwanegol / Additional Comm Rep	3.11.25	2.11.29
Mrs Y. Jones	Clerc y llywodraethwyr / Clerc of the governors	-	-

Polisi iaith / Language Policy

Ysgol gyfrwng Gymraeg (Categori 3) yw Ysgol Cwrt Henri, Ffairfach a Thalyllychau ac felly Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Derbynnir plant y dosbarth derbyn eu haddysg o'r diwrnod cyntaf yn y Gymraeg. Cyflwynir Saesneg ym mlwyddyn 3 lle cynigir gwersi Saesneg a chyflwynir rhai gwersi trawsgwricwlaidd yn yr iaith Saesneg hefyd. Darperir gohebiaeth ddwyieithog i bawb. Mae gwefan yr ysgol yn ddwyieithog.

Cwrt Henri, Ffairfach and Talley School is a Welsh medium school (Category 3) therefore Welsh is our primary language. Pupils as they start in the reception class receive all their education through the medium of Welsh. English is introduced formally at year 3 whereby pupils receive English lessons. Also some cross curricular lessons are taught through the medium of English. All correspondence, including the school's website are bilingual.

Addysg Uwchradd / Secondary education

Mae'r dair Ysgol yn bwydo'n naturiol dwy Ysgol Uwchradd sef Ysgol Bro Dinefwr a Ysgol Maes y Gwendraeth. Eleni mae bron bob un yn trosglwyddo i Fro Dinefwr gyda un yn trosglwyddo i Fro Pedr.

All three schools naturally feed two secondary schools Bro Dinefwr school and Maes y Gwendraeth. In September nearly all pupils will transfer to Bro Dinefwr with one transferring to Bro Pedr.



Rhifau a threfniadaeth dosbarth / Numbers and classroom arrangement 2025-26

YSGOL CWRT HENRI SCHOOL

	TYWI					COTHI				
Blynyddoedd: Years		N2	R	1	2	3	4	5	6	
Cyfanswm: Total		2	1	1	3	5	6	4	12	34

YSGOL FFAIRFACH SCHOOL

	Dewi			Myrddin			Twm Sion Cati		
Blynyddoedd: Years	N2	R	1	2	3	4	5	6	
Cyfanswm: Total	4	5	7	12	8	9	11	7	63

YSGOL TALYLLYCHAU / TALLEY SCHOOL

	Wiwerod				Tylluanod				
Blynyddoedd: Years	N2	R	1	2	3	4	5	6	
Cyfanswm: Total	3	4	8	3	10	1	6	8	43

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Mae'r clwb am ddim a gaiff ei gynnal yn yr ysgol rhwng 8:00 a 8:30 y bore o fewn y dair Ysgol. Gyda gofal hyd at amser cychwyn yn dilyn.
The breakfast club is free and is held at the school between 8:00 and 8:30am within the 3 schools and child care to follow until start of day.

Diwrnod Ysgol / School day 2025-26

	Amser cyrraedd yn y bore Arrival time in morning	Amser dechrau'r Ysgol Start time of school	Diwedd dydd End of day
Cwrt Henri	8:40	8:50	3:10
Ffairfach	8:50	9:00	3:30
Talylychau Talley	8:50	9:00	3:30

Amcanion a chynllun cydraddoldeb ac anabledd / Equality and disability scheme

Nid oes unrhyw ddisgyblion anabl ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r ysgolion wedi'i hadeiladu yn bwrpasol ac yn addas ar gyfer unrhyw berson anabl i gael mynediad i'r Ysgol. Nid oes cyfleusterau ty bach na cawod ar gael o fewn yr ysgolion. Ceir copi o gynllun ac amcanion cydraddoldeb yr ysgol ar y wefan. Os fyddai sefyllfa yn codi byddai'r Sir yn ail asesu'r sefyllfa.

There are no disabled pupils on the register at present. The school building is purposely built and is suitable for disabled access for any disabled pupil/adult. There are no disabled toilet and a shower facility in the three schools if needed. A copy of the school's Equality plan is published on the website. If there was a need county will re assess the situation.

Anghenion Dysgu Ychwanegol / Additional Learning Needs 2025-26

Mae polisi ADY yr ysgol yn un effeithiol ac eang ac yn un sy'n cyflawni gofynion y Côt Ymarfer. Mae 6 o ddisgyblion ar y gofrestr ADY gyda cynlluniau datblygu unigol ar draws y ffederasiwn, ac rydym yn awyddus i glustnodi unrhyw anawsterau sydd gan y plant cyn gynted ag y bo modd, ac ymateb iddynt yn y ffordd mwyaf priodol. Ystyrir bod ymyrraeth gynnar yn angenrheidiol i sicrhau diwallu anawsterau ag anghenion y plentyn unigol. Mrs C Davies sydd a chyfrifoldeb cydlynnu Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar draws y Ffederasiwn. Mae cynorthwyyr penodol yn cyd-weithio â'r athrawon dosbarth a'r cynorthwyyr i sicrhau bod y sesiynau unigol a dderbynia'r plant yn cael eu hymestyn a'u hymarfer yn feunyddiol o fewn gweithgarwch y dosbarth. Mae gan y disgyblion yma dargedau penodol yn ol eu hanghenion

Penodwyd Mrs N Evans, Ms M John a Mrs S Thomas fel llywodraethwr cyswllt o fewn y maes.

The school's ALN policy is effective and wide-ranging and one that fulfils the requirements of the Code of Practice. There are 6 pupils currently on the ALN register across the federation, and we are keen to identify any difficulties the children have as early as possible and respond to them in the most appropriate way. Early intervention is considered necessary to ensure that difficulties are met with the individual child's needs. Mrs. C Davies has had responsibility for coordinating Additional learning needs (ALN) across the Federation. Specific assistants work with the class teachers and assistants to ensure that the individual sessions the children receive are extended and reinforced daily within the classroom activity. Each pupil has specific targets according to their needs. Mrs. S. Thomas, Ms. M. John and Mrs. N Evans were appointed as associate governors within the ALN field.

Amddiffyn Plant a Iechyd a Diogelwch / Safeguarding and Health and Safety

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol a'r polisi Amddiffyn Plant yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Mae'r ddau bolisi yn dilyn canllawiau llywodraeth Cymru a Cyngor Sir Gar a cawn eu hadolygu yn flynyddol. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant (Pennaeth) neu y Penaethiaid cynorthwyol am unrhyw ddiffygion/peryglon a phryderon yn syth. Mae'r ddau bolisi ar gael i'w darllen yn yr ysgol ac ar y wefan. Mae'r ysgol hefyd yn dilyn unrhyw ganllawiau iechyd a diogelwch ychwanegol a ddiweddarir yn gyson gan y sir.

Mae'r adeiladau yn parhau i fod mewn cyflwr da ac yn darparu cyfleusterau o safon uchel ar gyfer ei ddisgyblion. Caiff yr adeiladau eu cadw a'i gynnal dan arweiniad Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r gwasanaeth glanhau. Mae cyfleusterau, megis toiledau yn cael eu cadw'n lân gan y glanhawyr ac maent yn ddigonol ar gyfer y nifer o blant yn yr ysgol.

The school's Health and Safety policy and the Child Protection policy reflect the wish of the Governing Body to provide a safe and secure environment for both pupils and staff. Both policies follow Welsh government and Carmarthenshire County council guidelines and are reviewed annually. All members of staff are advised of their duty to report any deficiencies/dangers and concerns to the Health and Safety/Child Protection Officer (the headteacher) or the Assistant Heads immediately. A copy of both policies are available at the school and can be found on the website. The school also follows any additional health and safety guidelines which are regularly updated by the county.

The buildings continue to be in a good state, providing excellent facilities for its pupils and staff. The school is maintained and kept well under the service level agreement between the school and Carmarthenshire County Council. The toilets are kept clean and hygienic by the cleaners, and these facilities conform with the Welsh Government guidelines.



Cyllid yr Ysgol / School budget

Gwelir isod gwariant yr ysgol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r costau'n cynnwys cynhaliaeth staffio, cynnal a chadw'r adeilad a thalu am gyflenwad o adnoddau cwricwlaidd. Ni wnaed taliad ar gyfer treuliau teithio neu gynhaliaeth i'r un aelod o'r Corff Llywodraethu'r ysgol a ni dderbynnir unrhyw roddion.

See below for the school's summary of expenditure for the last academic year. The figures include staffing provision, the school's repair and maintenance costs including utility costs and the curricular supply of resources. No gifts, travelling or subsistence claims were made by any member of the governing body during the year.

2067

Cwrt Henri

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol terfynol eich ysgol ar gyfer 2025/26.

Please see below a summary of your school's final outturn position for 2025/26.

£

Gwariant Net 2025/26

271,378

Net Expenditure 2025/26

Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2025/26

218,780

Formula Funding Allocation 2025/26

Arian Wrth Gefn a Ddygwyd Ymlaen o 2024/25

-28,268

Surplus Brought Forward from 2024/25

Diffyg Ariannol yn Cario Ymlaen i 2026/27

24,330

Deficit Carried Forward to 2026/27

Atodaf hefyd crynodeb o'r grantiau a dderbyniwyd gan eich ysgol yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26. Buaswn yn ddiolchgar petaech yn medru trefnu rhannu holl gynnwys y llythyr yma gyda Chorff Llywodraethol yr ysgol

I also attach a summary of grants received by your school during the 2025/26 financial year. I would be grateful if you could arrange for all the contents of this letter to be shared with the school's Governing Body.

2061

Ffairfach

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol
terfynol eich ysgol ar gyfer 2025/26.

Please see below a summary of your
school's final outturn position for 2025/26.

£

Gwariant Net 2025/26

403,155

Net Expenditure 2025/26

Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2025/26

366,978

Formula Funding Allocation 2025/26

Diffyg Ariannol a Ddygwyd Ymlaen o 2024/25

43,577

Deficit Brought Forward from 2024/25

Diffyg Ariannol yn Cario Ymlaen i 2026/27

79,754

Deficit Carried Forward to 2026/27

Atodaf hefyd crynodeb o'r grantiau a
dderbyniwyd gan eich ysgol yn ystod y
flwyddyn ariannol 2025/26. Buaswn yn
ddiolchgar petaech yn medru trefnu rhannu
holl gynnwys y llythyr yma gyda Chorff
Llywodraethol yr ysgol

I also attach a summary of grants received
by your school during the 2025/26 financial
year. I would be grateful if you could
arrange for all the contents of this letter to
be shared with the school's Governing
Body.

2065

Talylychau / Talley

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol
terfynol eich ysgol ar gyfer 2025/26.

Please see below a summary of your
school's final outturn position for 2025/26.

£

Gwariant Net 2025/26

324,958

Net Expenditure 2025/26

Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2025/26

333,233

Formula Funding Allocation 2025/26

Arian Wrth Gefn a Ddygwyd Ymlaen o
2024/25

-14,234

Surplus Brought Forward from 2024/25

Arian Wrth Gefn yn Cario Ymlaen i 2026/27

-22,509

Surplus Carried Forward to 2026/27

Atodaf hefyd crynodeb o'r grantiau a
dderbyniwyd gan eich ysgol yn ystod y
flwyddyn ariannol 2025/26. Buaswn yn
ddiolchgar petaech yn medru trefnu rhannu
holl gynnwys y llythyr yma gyda Chorff
Llywodraethol yr ysgol

I also attach a summary of grants received
by your school during the 2025/26 financial
year. I would be grateful if you could
arrange for all the contents of this letter to
be shared with the school's Governing
Body.

CWRICWLWM AC ASESU

Mae'r holl staff i'w canmol am safon y darpariaeth a gynnigir i ddisgyblion y Ffederasiwn. Gweithia pob un yn gydwybodol er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Traciwn ac aseswn gynnydd disgyblion gan ddefnyddio system dracio mewnol.

Anelwn am Ffederasiwn lle mae pob plentyn yn bwysig a lle hyrwyddir safonau trwy brofiadau sy'n herio ac yn ysbrydoli. Mae'n ffocws ni ar hyrwyddo unigolion iach hyderus ac annibynnol sy'n cymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn ymfalchio yn eu llwyddiannau gan sicrhau dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

Ein nod fel Ffederasiwn yw datblygu cymuned fach, glos Gymreig ei naws o fewn pob ysgol unigol yn ogystal a ymestyn profiadau pob disgybl drwy fod yn rhan weithredol o dim ehangach y Ffederasiwn.

Trwy ddefnyddio dull dysgu sydd wedi ei seilio ar themâu ysgol gyfan a Cwricwlwm i Gymru, sicrhewr addysg eang a chytbwys. Asesir cynnydd plentyn ymhob rhan o'i gwaith ac, os oes angen, cysylltir â'i rhieni.

Darperir cwricwlwm sy'n sicrhau fod pob plentyn yn gwneud camau fe unigolion ac yn tyfu i fod yn ymwybodol o ddiwylliant a hunaniaeth Gymreig.

Y mae gan y Ffederasiwn hefyd bolisi cydraddoldeb. Ceisir hyrwyddo'r polisi trwy ei gynnwys yn y cwricwlwm a'r gwersi a addysgir pan fydd cyfle. Mae'r ysgol yn llunio ac yn diwygio polisiau i egluro sut y diwellir y gofynion.

Mae'r cwricwlwm wedi ei wreiddio trwy y pedwar diben sef datblygu:

- Unigolion iach a hyderus
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus
- Dysgwyr gwybodus ac uchelgeisiol
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol

Gwneir hyn trwy gynllunio yn ol yr hyn sy'n bwysig o fewn y 6 Maes dysgu a phrofiad:

- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol

Ar draws y Ffederasiwn rhoddwn bwyslais ar ddatblygu'r Medrau Allweddol, sef Llythrennedd, Rhifedd a Cymhwysedd Digidol ar draws y cwricwlwm.

Y mae'r ysgol hefyd wedi llunio Cynllun Datblygu Ysgol sy'n llywio yn fanwl ddatblygiad yr ysgol dros y flwyddyn gyfredol.

CURRICULUM AND ASSESSMENT

All the staff are to be commended for the quality of provision offered to the pupils across the Federation. All work conscientiously to ensure the best education for all our pupils. We track and assess pupil progress using a bespoke school tracker and termly progress meetings

We aim for a Federation where all children are important and where standards are promoted through experiences that challenge and inspire. The focus is on promoting confident and independent healthy individuals who take ownership of their learning and are proud of their successes by ensuring principled, informed citizens who are ready to be citizens of Wales and the world.

Our aim as a Federation is to develop a small, close-knit Welsh-speaking community within each individual school as well as to extend the experiences of all pupils by being an active part of the wider team – The Federation

By using a teaching and learning method which is based on whole school themes and the Curriculum for Wales we ensure a balanced and varied education. Pupils progress is assessed in all areas and if needed parents are contacted.

We provide a curriculum that ensures that every child develops an awareness of Welsh culture and Welsh identity.

The school has an equal opportunities policy. An effort is made to promote this policy by including it in the curriculum and at every opportunity during the lessons taught.

The curriculum is established through the four purposes which are to develop:

- Confident and healthy individuals
- Ethical, informed citizens
- Ambitious and capable learners
- Enterprising and creative contributors

This is planned according to what matters statements within the 6 areas of learning:

- Language, literacy and Communication
- Mathematics and Numeracy
- Science and Technology
- Health and Wellbeing
- Humanities
- Creative Arts

Across the Federation we place an emphasis on developing the Key Skills in Literacy, Numeracy and Digital Competency across the curriculum.

The school have also created a School Development Plan which steers the school's journey of development during the year.

CYNLLUN DATBLYGU YSGOL SCHOOL DEVELOPMENT PLAN

Mae'r cynllun datblygu yn mynd i'r afael a'r blaenoriaethau sy'n deillio o weithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol, blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd a dadansoddiad o gynnydd a safonau disgyblion. Mae'r ysgol yn dilyn system hunan arfarnu gadarn er mwyn adnabod cryfderau, meysydd gwella a'r ffordd ymlaen ac mae'r Corff Llywodraethol yn rhan o fonitro cynnydd yr ysgol hefyd.

The development plan addresses the priorities arising from the school's self-evaluation procedures, National and local priorities together with an analysis of pupils' progress and standards. The school follows a robust self-evaluation system to identify strengths, areas of improvement and the way forward and the Governing Body is also part of monitoring the school's progress.

BLAENORIAETHAU 2025-26 PRIORITIES

Erbyn diwedd Gorffennaf 2026 ein bwriad yw:	By the end of July 2026 our aim is:
Dysgu ac addysgu (MA1) – Cwricwlwm Mireinio'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod addysgu'n galluogi dysgu dwfn a bod tasgau'n bwrpasol ac yn heriol trwy ddefnyddio'r cynllun newydd.	Teaching & Learning – Curriculum Refining the curriculum and provision to support deep learning.
Dysgu ac addysgu (MA1) – Iaith Datblygu Cymreictod a hyder disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn hyderus, yn enwedig ar lafar	Teaching & Learning – Language Developing Welsh identity and pupils' confidence to use Welsh naturally and confidently, especially orally.
Dysgu ac addysgu (MA1) – Mathemateg Parhau i fireinio a gwreiddio darpariaeth yr ysgol i wella a dyfnhau sgiliau rhesymu mathemategol a datrys problemau disgyblion.	Teaching & Learning – Mathematics Further embed and refine provision to deepen mathematical reasoning and problem-solving skills.

BLAENORIAETHAU 2026-27 PRIORITIES

Erbyn diwedd Gorffennaf 2027 ein bwriad yw:	By the end of July 2027 our aim is:
MA2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad Datblygu Ffederasiwn sy'n Wybodus am Drawma ac yn Seiliedig ar Egwyddorion TISUK	Well-being, care, support and guidance Develop a trauma informed federation based on the principles of TISUK
MA1:Dysgu ac addysgu (MA1) Datblygu darllen o'r sylfaen i'r uwch sgiliau drwy gryfhau dilyniant systematig:	Teaching & Learning Develop reading skills from the foundational stages to higher-order skills through strengthening systematic progression.
MA1:Dysgu ac addysgu (MA1) Gwreiddio pwrpas a chryfhau'r cwricwlwm trwy sicrhau dilyniant, cysondeb a her briodol ar draws y cwricwlwm	Teaching & Learning Embed purpose and strengthen the curriculum by ensuring progression, consistency, and appropriate challenge across the curriculum.

Y Ffederasiwn



The Federation

Llwyddiannau a digwyddiadau - Achievements and events		
Gweithgareddau chwaraeon a lles Sporting and wellbeing events	Ymweliadau/Diwyddiadau Visits / Events	Gweithgareddau Cymunedol Community events
Mabolgampau y Ffederasiwn <i>Federation sports day</i>	Ymweliad preswyl Blwyddyn 6 i Bentre Ifan <i>Year 6 residential visit to Pentre Ifan</i>	Diwrnodau Pontio Blwyddyn 6 <i>Year 6 Transition days</i>
Sesiwn wrth y badau achub ynglyn a diogelwch <i>Session with the RNLI</i>	Fy mhlath bywyd a picnic yn Llansteffan <i>My food plate visit and picnic in Llanstephan</i>	Gwasanaethau ymadael Blwyddyn 6 <i>Year 6 leavers assemblies</i>
Blwyddyn 6 – sgysiau tyfu fyny gan y nyrs Ysgol <i>Year 6 – growing up talk</i>	Jambori Ewro Cymru <i>Wales euro jamboree</i>	Nosweithi Rhieni <i>Parents evenings</i>
Mabolgampau Ysgolion y clwstwr <i>Cluster school sports day</i>	Cystadleuaeth ddawns yn Rhydaman <i>Dance competition in Ammanford</i>	Sioe Nadolig Ceidwad y Byd <i>Ceidwad y Bydd Christmas show</i>
Blwyddyn 3 – 6 - Traws Gwlad Year 3 – 6 <i>Dinefwr cross country</i>	Diwrnod Shwmae S'Mae <i>Shwmae S'Mae day</i>	Sesiynau Pontio plant Newydd <i>New pupils transition sessions</i>
Diwrnod codi ymwybyddiaeth - Dangos y Cerdyn Coch i hiliaeth <i>Raising awareness day - Show the red car to racism</i>	Blwyddyn 3 a 4 - Cyngerdd y gwasanaeth Cerdd <i>Year 3 & 4 Music service concert</i>	Gwyl Len Llandeilo Blwyddyn 3-6 <i>Llandeilo Literacy Festival Year 3-6</i>
Cynrychiolwyr - Digwyddiad Llysgenhadon efydd <i>Sports ambassador event for representatives</i>	Ysgol gyfan – Prosiect Sbectrwm <i>Whole school – Sbectrum project</i>	Sesiynau iaith yn Canolfan Brianne BI4 / BI2a 3 / BI5 <i>Language sessions at Brianne</i>
Diwrnod Sanau Rhyfedd – wythnos gwrth fwlio <i>Odd socks day – Anti bullying week</i>	Panto Y Brenin March <i>Brenin March pantomime</i>	Blwyddyn 6 – Year 6 Cor Proms choir
Diwrnod Plant mewn angen <i>Children in Need Day</i>	Cwis Dim Clem <i>Dim clem quiz</i>	Mabolgampau Bro Dinefwr Sports
Diwrnod Siwmpwr Nadolig – Achubwch y plant <i>Christmas Jumper day – Save the children</i>	Urdd – Cog Urdd a Pob Urdd BI4-6	
Wythnos Iechyd Meddwl – Gwisgo melyn <i>Mental Health week – wear yellow</i>	Cwis Siarter Iaith e-ysgol <i>e-school Welsh charter quiz</i>	
Diwrnod David Attenborough Day	Eisteddfod yr Urdd – Cystadlu <i>Urdd Eisteddfod - Compete</i>	
Sesiynau Nofio – Swimming sessions	Dathliadau Dydd Gwyl Dewi <i>St Davids day celebrations</i>	
Diwrnodau Pontio – Transition days Blwyddyn 5 a 6 / Year 5 & 6	Clwb ar ol Ysgol – Urdd <i>After school club - urdd</i>	
Mabolgampau y Ffederasiwn Federation sports day	Prosiect /Project Me and my map Nicola Davies Grŵp o ddisgyblion o'r 3 ysgol Group of 3 pupils from each school	
	Blwyddyn 4 a 5 / Year 4 & 5 Llangrannog	
	Blwyddyn 6 – Year 6 Ymweliad Preswyl / Residential visit Pentre Ifan	

Ysgol Cwrt Henri - Cwrt Henri school

Llwyddiannau a digwyddiadau /Achievements and events		
Gweithgareddau elusennol a lles Charity and wellbeing events	Ymweliadau/Diwgyddiadau Visits / Events	Gweithgareddau Cymunedol Community events
Ymweliad wrth PC Diana <i>PC Diana visits</i>	Sesiynau Mad Science <i>Mad Science sessions</i>	Prynhawn gyda grwp Dementia Llangathen <i>An afternoon with Cathen Dementia group</i>
Sesiwn gemau buarth gyda Menter <i>Yard game visits with Menter</i>	Ymweliad a Techniquet a'r Plamnatarium <i>A visit to Techniquet & Planetarium</i>	Pontio Blwyddyn 5 – Maes y Gwendraeth <i>Year 5 Panto – Maes y Gwendraeth</i>
Te Macmillan – Bake off <i>Macmillan tea Bake off</i>	Tywi – ymweliad gan PC Diana <i>Tywi – Visits from PC Diana</i>	Gwasnaeth Diolchgarwch gyda casgliad tuag at y banc bwyd yn Llandeilo <i>Harvest Thanksgiving with collection towards Llandeilo food bank</i>
Sesiynau Beicio Blwyddyn 5 a 6 <i>Biking proficiency – Year 5 & 6</i>	Ymwelydd – James a'i brofiad yn NASA <i>Visitor – James and his experience of NASA</i>	Cyngor Cathen – llais y plant yn ymgynghoriad 3-11 Cwrt Henri <i>Cathen council – pupil voice within 3-11 consultation</i>
	Rownd derfynnol Cwis dim clem <i>Final round of the Dim clem quiz</i>	Disgo Calan Gaeaf y CRhA <i>PTA Halloween disco</i>
	Ymweliad Ysgol Gyfan Whole school visit Manor Park	Canu yn Ffair Aeaf Aberglasney <i>Singing in Aberglasney Winter Fair</i>
		Addurno Coeden Nadolig y Siop Gymunedol <i>Decorate the Christmas tree in the community shop</i>
		Sesiwn ganu rhwng yr Ysgol a ti a fi <i>Singing session between school & ti a fi</i>
		Noson Cawl a chan a bingo <i>A night of Cawl, bingo & song</i>
		Plannu Perthi ar safle y siop Newydd <i>Hedge planting on the new shop site</i>



Ysgol Ffairfach – Ffairfach school

Llwyddiannau a digwyddiadau /Achievements and events		
Gweithgareddau elusennol a lles Charity and wellbeing events	Ymweliadau/Diwgyddiadau Visits / Events	Gweithgareddau Cymunedol Community events
Sesiynau dawns gyda Ebony <i>Dance sessions with Ebony</i>	Sesiynau Adam yn yr ardd <i>Adam in the garden sessions</i>	Dathlu yr Ysgol yn 125 – prynhawn agored <i>Celebrating 125 years – open afternoon</i>
Troi Llandeilo yn binc Dewi a Myrddin – Gweithdy printio Troi Llandeilo yn binc + arddangosfa yn yr Hen Farchnad <i>Dewi & Myrddin – Turn Llandeilo Pink – printing workshop + display in the old market</i>	Ymweliadau gan Ficer Carys (bob pythefnos) <i>Vicar Carys visits (every fortnight)</i>	Pontio Blwyddyn 5 – Maes y Gwendraeth <i>Year 5 transition day – Maes y Gwendraeth</i>
Gwasanaeth Diolchgarwch – codi arian at Tenovus <i>Thanksgiving – raising money towards Tenovus</i>	Bedydd ffug yn yr eglwys - Ysgol gyfan <i>Christening re-enactment - Llandeilo church</i>	Gwasanaeth Diolchgarwch y Maer – eitem gan yr Ysgol <i>Mayors Harvest Thanksgiving – item by the school</i>
Blwyddyn 4,5,6 – Ymweliad PC Diana Diogelwch y we <i>Year 4,5,6 – Visits by PC Diana Internet Safety</i>	Gweithdy Ynni Da – Twm Sion Cati <i>Ynni da workshop TSC</i>	Disgo Calan Gaeaf y CRha <i>PTA Halloween disco</i>
Seremonïau Sul y Cofio Ffairfach a Llandeilo <i>Remembrance Sunday ceremonies</i>	Sioe Cyw – Dosbarth Dewi <i>Cyw show – Dewi class</i>	Gwasanaeth cynhaeaf yr eglwys yn Llandeilo – eitem gan yr Ysgol <i>Llandeilo harvest thanksgiving – item by school</i>
Sesiynau brwsio dannedd <i>Brushing teeth sessions</i>	Gweithgareddau Nadolig yn Hengwrt – Dewi <i>Hengwrt Christmas activities</i>	Canu yn Parc Dinefwr – Ffair Aaef <i>Singing in Dinefwr Park – Winter Fair</i>
Beicio – Blwyddyn 5 a 6 <i>Biking proficiency Year 5 & 6</i>	Dewi – Gweithgareddau Gwneud y pethau bychain gyda'r Gerddi Botaneg <i>Dewi – workshop based on St Davids arranged by the Botanical Gardens</i>	Gwyl y Synhawyrau – Cor yn canu <i>Festival of the senses – choir singing</i>
Sesiynau Adam yn yr Ardd Gardening sessions		Ymweliadau Awel Tywi <i>Awel Tywi visits</i>
Sesiwn gyda'r scarlets – Scarlets session	Blwyddyn 6 – Year 6 Proms llinynnol / strings	Canu ar y sgwar – troi y golau arno <i>Turning on of lights Ffairfach square</i>
Sesiynau awyr agored PICNIC Outdoor learning sessions PICNIC Ysgol gyfan / whole school	Ymweliad Ysgol Gyfan Whole school visit Manor Park	



PIC•COLLAGE

Ysgol Talyllychau – Talley school

Llwyddiannau a digwyddiadau /Achievements and events		
Gweithgareddau elusennol a lles Charity and wellbeing events	Ymweliadau/Diwgyddiadau Visits / Events	Gweithgareddau Cymunedol Community events
Gwasnaeth Diolchgarwch i godi arian i'r banc bwyd / <i>Harvest thanksgiving raising money for the food bank</i>	Ymweliad wrth Cyw i'r Ysgol <i>A visit from Cyw</i>	Rasys moch – rhan o ddathliadau 150 yr Ysgol <i>Pig races – celebrating 150 years of Talley school</i>
Beicio – Blwyddyn 5 a 6 <i>Biking proficiency Year 5 & 6</i>	Disgo sbwci yr Ysgol <i>School spooky disco</i>	Canu yn Parc Dinefwr – Ffair Aaef <i>Singing in Dinefwr Park – Winter Fair</i>
Sesiwn gyda Glyn o Menter Session with Glyn from Menter	Crey murlun gyda Oriolodl Create a mural with Oriolodl	Taith dractorau Nadoligaidd <i>Christmas tractor run</i>
Taith dractorau - CRhA Tractor run - PTA	Parti Unsain / Unison party Eisteddfod yr Urdd	Ffair Nadolig Llansawel – canu <i>Llansawel Christmas fair - singing</i>
	Tylluanod Ymweliad a LAS Llanbed Visit to LAS Lampeter	Prynhawn yn Cwmdu afternoon
	Wiwerod Ymweliad gan LAS Llanbed Visit from LAS Lampeter	Prynhawn hwyl Cae Talyllychau Fun afternoon
	Ymweliad Ysgol Gyfan Whole school visit San Ffagan	



Diwrnodau HMS / Inset days 2026/27

01/09/26 02/09/26 2/11/26 15/2/27 5/4/27 20/7/27

TYMHORAU A GWYLIAU HAF 2026 – HAF 2028

Tymor	Tymor yn dechrau	Hanner tymor	Diwedd y tymor
Haf 2026	Dydd Llun 13 Ebrill	Dydd Llun 25 Mai - Dydd Gwener 29 Mai	Dydd Llun 20 Gorffennaf
Hydref 2026	Dydd Mercher 2 Medi	Dydd Llun 26 Hydref - Dydd Gwener 30 Hydref	Dydd Gwener 18 Rhagfyr
Gwanwyn 2027	Dydd Llun 4 Ionawr	Dydd Llun 8 Chwefror - Dydd Gwener 12 Chwefror	Dydd Gwener 19 Mawrth
Haf 2027	Dydd Llun 5 Ebrill	Dydd Llun 31 Mai - Dydd Gwener 4 Mehefin	Dydd Mawrth 20 Gorffennaf
Hydref 2027	Dydd Iau 2 Medi	Dydd Llun 25 Hydref - Dydd Gwener 29 Hydref	Dydd Gwener 17 Rhagfyr
Gwanwyn 2028	Dydd Mawrth 4 Ionawr	Dydd Llun 21 Chwefror - Dydd Gwener 25 Chwefror	Dydd Gwener 7 Ebrill
Haf 2028	Dydd Llun 24 Ebrill	Dydd Llun 29 Mai - Dydd Gwener 2 Mehefin	Dydd Iau 20 Gorffennaf

Dyddiau HMS Penodol

> Dydd Mawrth 1 Medi 2026

> Dydd Mercher 1 Medi 2027

TERM TIMES AND HOLIDAYS SUMMER 2026 – SUMMER 2027

Term	Term begins	Half Term	Term Ends
Summer 2026	Monday 13 April	Monday 25 May to Friday 29 May	Monday 20 July
Autumn 2026	Wednesday 2 September	Monday 26 October to Friday 30 October	Friday 18 December
Spring 2027	Monday 4 January	Monday 8 February to Friday 12 February	Friday 19 March
Summer 2027	Monday 5 April	Monday 31 May to Friday 4 June	Tuesday 20 July
Autumn 2027	Thursday 2nd September	Monday 25 October to Friday 29 October	Friday 17 December
Spring 2028	Tuesday 4 January	Monday 21 February to Friday 25 February	Friday 7 April
Summer 2028	Monday 24 April	Monday 29 May to Friday 2 June	Thursday 20 July

Designated INSET Days

✔ Tuesday 1 September 2026

✔ Wednesday 1 September 2027

Braf oedd eleni cael calendar llawn o weithgareddau a digwyddiadau. Cafodd y disgyblion nifer o brofiadau byth gofiadwy unwaith eto eleni. Hoffwn i ddiolch i chi gyd am eich cefnogaeth barhaus yn ystod 2025-26 a gobeithio eich bod yn barod i ymuno yn y calendr amrywiol sydd gan 2026-27 i'w gynnig.

It was so nice to take up a full calendar of events and activities. All children had a vast number of lifelong experiences. I wish to thank you all for your continued support during 2025-26 and hope you are all ready to join the calendar of events that 2026-27 has to offer.

Sian Davies

Pennaeth / Headteacher